**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**Mehefin 24ain 2024**

**Cyfarfod Hybrid (Aml-leoliad)**

**Y Cynghorwyr:** Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Gareth T Jones, Huw Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Edgar Owen, Gareth Coj Parry, John Pughe, John Pughe Roberts, Gareth Roberts a Gruffydd Williams

**Eraill a wahoddwyd - Aelod Lleol**: Cynghorydd Alan Jones Evans

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Cynllunio ac Amgylchedd), Miriam Williams (Gwasanaethau Cyfreithiol), Rhys Cadwaladr (Uwch Swyddog Cynllunio Mwynau a Gwastraff), Iwan ap Trefor (Rheolwr Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Ymddiheuriadau:**

Cynghorwyr: Cai Larsen a Huw Rowlands

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 24 o Fehefin 2024 |

---

**PWNC: Eitem 5**

CAIS AM ORCHYMYN DAN DDEDDF RHEOLI TRAFFIG

---

**PENDERFYNIAD:**

**Cymeradwyo cyflwyno cynllun clirffordd ar y B4403 rhwng Llanuwchllyn a'r Bala yn ei gyfanrwydd**

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

| | |
|---|---|
| O blaid | 12 |
| Atal | 1 |
| Yn erbyn | 0 |

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD  PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol  1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Pwyllgor Cynllunio** | 24ain Mehefin 2024 |

---

**PWNC: Eitem 6.1**
**CAIS RHIF C22/0136/03/AC Chwarel Manod, Llan Ffestiniog LL41 4RF**

---

**PENDERFYNIAD:**

**Dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Amgylchedd gymeradwyo'r cais, gydag amodau'n ymwneud â'r canlynol:**

- **Y gwaith i ddod i ben ar 31/12/2048, adfer y safle erbyn 31/12/2049.**
- **Gweithgareddau a ganiateir a chydymffurfiaeth â'r lluniad / manylion / cynlluniau / gwybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Marcio ffin y safle ac ardaloedd cloddio am fwynau ynghyd â'r ardaloedd tipio.**
- **Dirymu hawliau GPDO Rhannau 19 a 21 ar gyfer offer neu beiriannau sefydlog, adeiladau a strwythurau a gwastraff mwynau.**
- **Terfyn allforio o 15,000 tunnell y flwyddyn.**
- **Deunydd wedi'i allforio wedi'i gyfyngu i'r briffordd gyhoeddus bresennol.**
- **Gweithrediadau tipio i'w cyfeirio tuag at y tirffurf terfynol.**
- **Capasiti tipio wedi'i ddiweddaru.**
- **Rheoli cyfyngiadau sŵn.**
- **Cyfyngu ar ffrwydro rhwng 07:00 a 20:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Dim ffrwydro ar ddydd Sul na gwyliau banc na chyhoeddus.**
- **Cyflymder gronynnau brig wedi'i gyfyngu i 50mm/ s ar gyfer 95% o ffrwydradau gorlwytho dros gyfnod o dri mis a heb fod yn fwy na 60mm/ s ar unrhyw adeg.**
- **Rhaid mesur anterth cyflymder gronynnau ar y pwynt agosaf at safle'r ffrwydrad o fewn yr ardal gysgodol a ddangosir yn Lluniad Cyfeirnod WCYBG2312 Rhif 10.**
- **Monitro gweithrediadau ffrwydro i gofnodi cyflymder gronynnau brig.**
- **Adolygiad bob pum mlynedd o'r gweithrediadau.**
- **Cyflwyno'r adolygiad cyntaf o fewn 12 mis.**
- **Cynllun Adfer manwl.**
- **Gwaith adfer graddol / blaengar.**
- **5 mlynedd ôl-ofal/monitro.**
- **Bydd cynllun ailfodelu tirffurf yn cael ei gymhwyso i feinciau Chwarel y North Pole a wynebau cysylltiedig fel y nodir ar gynlluniau ar gyfer creu tirffurf sefydlog a nodweddion i gyd-fynd â bwtresi a chreigiau a sgri cyfagos.**

---

- **Ar ôl rhoi'r gorau i weithio, bydd y chwareli/peiriannau/deunyddiau/offer yn cael eu clirio a bydd y safle'n cael ei gadael mewn cyflwr glân/taclus, meinciau chwarel yn cael eu paratoi, eu trin a'u plannu gyda fflora o darddleoedd lleol, ffyrdd cludo i gael eu symud.**
- **Cyfyngu mynediad i dda byw i'r ardaloedd sydd wedi'u hadfer**
- **Dim peiriannau nac offer i'w gweithredu heb sgriniau 'lladd' sain priodol ac wedi'u cynnal yn iawn, distawyddion ac ati.**
- **Bydd pob cerbyd sy'n cludo deunydd crai neu wastraff yn cael eu gweithredu mewn modd fel nad ydynt yn cynhyrchu gormod o sŵn.**
- **Dim gweithrediadau fydd yn achosi i lwch ffoi godi a bod pob ardal sy'n cael eu tramwyo gan gerbydau yn cael eu dyfrio i lawr.**
- **Bydd cael gwared ar lystyfiant, atgyweirio neu ddymchwel adeiladau a gweithio ardaloedd ble yn flaenorol cafodd mwynau eu tynnu/chwarelu/tipio yn digwydd y tu allan i'r tymor nythu er mwyn gwarchod adar sy'n nythu. Ecolegydd cymwys**
- **Dim gweithrediadau i'w gwneud ar yr wyneb heb dynnu a storio'r pridd uchaf, isbriddoedd a mawn.**
- **Priddoedd uchaf ac isbriddoedd i'w hailddefnyddio cyn gynted â phosibl (Wrth adfer).**
- **Priddoedd uchaf i gael eu storio mewn twmpathau heb fod yn fwy na 2m o uchder.**
- **Cofnodi adeilad hanesyddol y cyfleusterau storio celf a Chynllun Ymchwilio Ysgrifenedig.**
- **Cynllun monitro a difa rhywogaethau anfrodorol/ymledol.**

## CANLYNIAD Y BLEIDLAIS

| | |
|---|---|
| O blaid | 12 |
| Atal | 1 |
| Yn erbyn | 0 |

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.